# SL(6)638 – Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun Pensiwn 2015").

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2025 ac nid oes iddynt effaith ôl-weithredol.

Mae rheoliadau 3, 4 a 9 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hawlogaethau aelodau'r cynllun yn ystod cyfnodau o absenoldeb profedigaeth rhiant.

Mae rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i ddarparu ar gyfer cyfraddau cyfraniadau aelodau newydd a dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelodau o 1 Medi 2025 ymlaen.

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad 119A yn Rheoliadau 2015 sy'n cyflwyno dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelodau o fewn Cynllun Pensiwn 2015 sy'n seiliedig ar strwythur haenau yn hytrach nag ystod tâl pensiynadwy. Mae'r dull newydd hwn yn diffinio rolau aelodau'r cynllun at ddiben cyfraddau cyfraniadau aelodau ac yn darparu y bydd y rolau hyn yn perthyn i 1 o 5 haen, y pennir cyfraddau cyfraniadau aelodau yn eu herbyn o 1 Medi 2025 ymlaen. Mae'r dull wedi'i ddiweddaru yn ei gwneud yn glir y bydd diffoddwyr tân wrth gefn a diffoddwyr tân gwirfoddol, ni waeth beth fo'u rôl, yn aros yn haen 1 bob amser wrth bennu'r cyfraddau cyfraniadau aelodau sy'n gymwys. At ddibenion rheoliad newydd 119A yn unig, nid yw'r diffiniad o ddiffoddwr tân rheolaidd yn cynnwys rolau rheolwr criw, rheolwr gwylfa, rheolwr gorsaf, rheolwr grŵp, rheolwr ardal, prif swyddog tân cynorthwyol, dirprwy brif swyddog tân na phrif swyddog tân.

Gan fod rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn newid elfen warchodedig o'r cynllun a gyfansoddir gan Reoliadau 2015 (fel y diffinnir "protected elements" yn adran 22(5) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu â chynrychiolwyr y personau hynny) y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau hyn, gyda golwg ar ddod i gytundeb. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi gosod adroddiad gerbron Senedd Cymru.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw

ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 6, yn rheoliad newydd 119A(5), yn y testun Saesneg, rhestrir y diffiniadau yn ôl y drefn y maent yn ymddangos yn y tabl a geir yn rheoliad 119A(2). Fodd bynnag, rhestrir y diffiniadau yn nhrefn yr wyddor Gymraeg yn nhestun Cymraeg rheoliad 119A(5). Mae diffiniadau fel arfer yn cael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor yn nhestunau'r ddwy iaith er ei bod hefyd yn bosibl rhestru diffiniadau mewn trefn gysyniadol neu mewn rhyw drefn resymegol arall – gweler paragraff 4.15(1) o'r canllaw Drafftio Deddfau i Gymru. Ond byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'r rhestrau o ddiffiniadau gael eu trefnu gan ddefnyddio'r un dull yn nhestunau'r ddwy iaith yn rheoliad 119A(5).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ail baragraff y rhaglith, nodir, yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013"), fod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â "chynrychiolwyr y personau hynny" y mae'n ymddangos iddynt yn debygol yr effeithir arnynt gan reoliadau 3, 4 a 9 o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, y gofyniad yw ymgynghori "**â'r personau hynny (neu** â chynrychiolwyr y personau hynny)" fel y nodir yn gywir ym mharagraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r un gofyniad hefyd wedi'i nodi'n gywir ym mharagraff canlynol y rhaglith mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar wahân o dan adran 22(2)(a) o Ddeddf 2013.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

O dan adran 21(2) o Ddeddf 2013, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod cyfrifol, gyhoeddi datganiad a'i gadw'n gyfredol, gan nodi'r personau y byddent fel arfer yn disgwyl ymgynghori â hwy o dan adran 21(1) cyn gwneud rheoliadau'r cynllun. Fodd bynnag, nid oes sôn am y datganiad hwnnw na lle y mae wedi'i gyhoeddi yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig nac yn y Rheoliadau hyn. A allai Llywodraeth Cymru esbonio a ddefnyddiwyd datganiad cyfredol o'r fath ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, lle y mae wedi'i gyhoeddi, a pham nad oes sôn amdano yn y Memorandwm Esboniadol nac yn y Rheoliadau?

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ail a thrydydd paragraffau'r rhaglith, nodir bod ymgynghoriad wedi bod ar reoliad 9 o'r Rheoliadau hyn o dan adrannau 21(1) a 22(2)(a) o Ddeddf 2013. At hynny, ym mhedwerydd paragraff y rhaglith, nodir bod adroddiad wedi'i osod gerbron y Senedd mewn cysylltiad â rheoliad 9 yn unol ag adran 22(2)(b) o Ddeddf 2013. Fodd bynnag, mae adran 22(7) yn nodi, pan fo adran 22 yn gymwys, nad oes gofyniad i ymgynghori o dan adran 21(1) o Ddeddf 2013. Yn yr achos hwn, a ddylai gyfeirio at reoliad 9(b)(i) o'r Rheoliadau hyn yn ail baragraff y rhaglith yn unig, ac at reoliad 9(a) a (b)(ii) o'r Rheoliadau hyn yn nhrydydd a phedwerydd paragraffau'r rhaglith?

5. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn rheoliad 6, yn rheoliad newydd 119A(5) a fewnosodir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, nid oes angen diffiniadau o "diffoddwr tân wrth gefn" na "diffoddwr tân gwirfoddol" yn rheoliad 119A. Maent ond yn cyfeirio'r darllenydd at y diffiniadau presennol o'r un termau yn rheoliad 3 (dehongli) sy'n gymwys i'r cyfan o Reoliadau 2015, gan gynnwys pan ddefnyddir y termau hynny mewn unrhyw ddiwygiadau newydd fel rheoliad 119A.

6. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn rheoliad 6, yn rheoliad newydd 119A(5), yn y diffiniad o "rheolwr criw", ym mharagraff (a), cyfeirir at rôl rheolwr criw a nodir yn y ""Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol **ym mis Medi 2005**". Fodd bynnag, yn rheoliad 3 o Reoliadau 2015, yn y diffiniad o "rôl", cyfeirir at ddogfen o'r un enw a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol **ym mis Awst 2005**. At hynny, nid oes troednodyn i gyd-fynd â'r cyfeiriad at "Fire and Rescue Services Rolemaps" yn y diffiniad newydd o "rheolwr criw" yn rheoliad 119A(5) yn nodi lle y gellir cael y ddogfen honno neu ei manylion cyhoeddi, er mwyn nodi'r ddogfen yn glir. Felly, mae ansicrwydd ynghylch a yw'r ddogfen "Fire and Rescue Services Rolemaps" y cyfeirir ati yn y diffiniad o "rheolwr criw" yn rheoliad newydd 119A(5) yr un ddogfen y cyfeirir ati yn y diffiniad presennol o "rôl" yn rheoliad 3 neu rifyn diweddarach o'r un ddogfen. Mae'r un broblem yn digwydd yn y diffiniadau o "rheolwr gwylfa", "rheolwr gorsaf", "rheolwr grŵp" a "rheolwr ardal" yn rheoliad newydd 119A(5) sydd hefyd yn cyfeirio at y "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd ym mis Medi 2005.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1**: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y diffiniadau yn ymddangos mewn trefn wahanol yn y testunau Cymraeg a Saesneg ac yn derbyn y byddai'n well pe bai'r un dull wedi ei ddefnyddio yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod hyn yn effeithio ar ystyr nac eglurder y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:** Mae'r ddarpariaeth ymgynghori yn adran 21(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn llunio rheoliadau cynllun, ymgynghori â'r personau hynny neu â chynrychiolwyr y personau hynny y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan y rheoliadau. Rydym yn ystyried bod geiriad y rhaglith yn adlewyrchu'n gywir yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ac y cydymffurfiwyd â'r gofyniad.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:** Mae'r mwyafrif o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân ar gael i'r cyhoedd ac nid ydynt yn gyfyngedig i sefydliadau penodol, er nodir y gellir defnyddio dull mwy pendant ar gyfer rhai newidiadau. Nod Llywodraeth Cymru yw drafftio dogfennau ymgynghori sy'n hygyrch i aelodau unigol o'r cynllun, eu cyflogwyr a'u cyrff cynrychiadol.

Yn ymarferol, y personau sydd fwyaf tebygol o ymateb i ymgynghoriadau ar faterion sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân ac y mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn disgwyl ymgynghori â hwy yw aelodau Bwrdd Cynghori statudol Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae'r Bwrdd hefyd yn fforwm ar gyfer cynnal trafodaeth fanwl ar y cyd ar faterion sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân, gan gynnwys y Rheoliadau hyn, a dynnwyd at sylw penodol y Bwrdd, ac a drafodwyd ganddo ar sawl achlysur. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys holl gyflogwyr a chyrff cynrychiadol cydnabyddedig diffoddwyr tân yng Nghymru. Yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor, rydym wedi cyhoeddi datganiad yn nodi'r personau y byddai Gweinidogion Cymru fel arfer yn disgwyl ymgynghori â hwy cyn llunio rheoliadau cynllun.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod wedi bod yn gliriach cyfeirio at yr is-baragraffau penodol. Ystyriwn fod y rhaglith fodd bynnag yn ei gwneud yn ddigon clir y cydymffurfiwyd â'r gofynion ymgynghori.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn. Mae diffiniadau o "diffoddwr tân gwirfoddol" a "diffoddwr tân wrth gefn" wedi eu cynnwys yn rheoliad newydd 119A i gynorthwyo'r darllenydd, yn benodol unigolion sy'n gweithredu fel diffoddwyr tân gwirfoddol a diffoddwyr tân wrth gefn, er mwyn deall i ba haen y mae pob rôl yn perthyn. Er mai cyfeirio'r darllenydd at reoliad 3 (dehongli) yn unig a wna'r diffiniadau hyn, ystyriwyd ei bod yn ddefnyddiol eu cynnwys yng ngoleuni'r cyd-destun ehangach a'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer rolau rheolwyr criw i brif swyddogion tân nad ydynt yn cynnwys diffoddwyr tân rheolaidd, diffoddwyr tân gwirfoddol na diffoddwyr tân wrth gefn at ddiben rheoliad newydd 119A.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn mai gwall yw'r cyfeiriadau at "Medi 2005", ond nid yw'n ystyried y bydd yn achosi unrhyw ddryswch yn ymarferol. Mae'r "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol wedi bod ar waith ers 20 mlynedd ac nid ydynt wedi eu diweddaru ers mis Awst 2005, sy'n golygu nad oes fersiynau diweddarach yn bodoli. Cânt eu defnyddio'n ddyddiol yn y sector ac felly ystyrir y byddai

personau y mae’r Rheoliadau yn berthnasol iddynt yn ystyried y cyfeiriad at “Medi 2005” fel gwall teipograffyddol clir ac amlwg.

Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae rheoliad 3 o Reoliadau 2015 yn cyfeirio’n gywir at y “Fire and Rescue Services Rolemaps” a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Awst 2005 mewn cysylltiad â’r diffiniad o “rôl”. Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys dolen i’r “Rolemaps” y’u nodir yn glir fel y rhai a gyhoeddwyd ym mis Awst 2005. Ar y sail hon, ystyriwn fod y cyfeiriad at y “Rolemaps” yn briodol eglur ac y bydd yn cael ei ddeall gan y rhai yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.